



Gwrth-fwlio

Hawliau, Parch, Cydraddoldeb

Tachwedd 2021

Nodyn esboniadol RhCT mewn perthynas â chanllaw Gwrth-fwlio statudol Llywodraeth Cymru

Hawliau, Parch, Cydraddoldeb – cyhoeddwyd Tachwedd 2019

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi cyfres o ganllawiau statudol a chynghorol ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Mae'r canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnwys dyletswyddau statudol ac arferion disgwylidig.

Mae'r canllaw yma'n disodli 'Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio' a gyhoeddwyd yn 2003 a 2011.

Mae'r dogfennau yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r ymchwil diweddaraf i fwlio a strategaethau effeithiol wrth ddelio â bwlio mewn ysgolion. Maen nhw'n darparu cysondeb yn nefnydd yr iaith a ddefnyddir a dealltwriaeth o beth ydy, a beth nad ydy bwlio. Mae'n cynnwys gwybodaeth benodol mewn perthynas â

- bwlio ar sail rhagfarn
- bwlio ac ymddygiad ymosodol ar-lein
- y Gyfraith mewn perthynas â bwlio
- Llywodraethu

Mae'r canllaw yn cyfeirio at ystod o adnoddau a ffynhonnellau cymorth, yn ogystal ag arweinyfr ar-lein wedi'i baratoi o gyfraniadau gan randdeiliaid. Mae'r arweinyfr yn ffynhonnell gyfoethog o adnoddau i'w defnyddio ar lefel weithredol.

Mae'r ddogfen yma'n crynhoi'r canllaw statudol yn ogystal â chanllawiau penodol ynglŷn â pholisi a gweithdrefnau gweithredol RhCT. Dylid darllen y canllaw yma yng nghyd-destun y canllawiau statudol isod:

Canllawiau a gwasanaethau

- [Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer rhieni a gofalwyr](#)

Canllawiau i helpu rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael â bwlio.

- [Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer ysgolion](#)

Canllawiau i helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio.

- [Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol](#)

Canllawiau i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â bwlio.

- [Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllaw i bobl ifanc](#)

Canllawiau i helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â bwlio.

- [**Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllaw i blant**](#)

Canllawiau i helpu plant i fynd i'r afael â bwlio.

- [**Bwlio: poster i blant a phobl ifanc**](#)

Poster i'w harddangos mewn ysgolion, â chynghor ar yr hyn i'w wneud ac wrth bwy y gallwch ddweud os ydych yn cael eich bwlio

- [**Pecyn briffio gwrthfwlio: cwestiynau ac atebion**](#)

Diweddariad ar y canllawiau gwrth-fwlio statudol diwygiedig.

- [**Bwlio yn yr ysgol: canllawiau i rieni a gofalwyr**](#)

Beth i'w wneud os yw eich plentyn yn cael ei fwlio.

Datganiad polisi gwrth-fwlio RhCT

Mae herio bwlio ledled Rhondda Cynon Taf yn parhau'n flaenoriaeth allweddol.

Mae gan ysgolion allu unigryw i adael i'n disgyblion ddatblygu yn unigolion moesol, iachus, hyderus ac uchelgeisiol. Rydyn ni eisiau i'n hysgolion fod yn llefydd ble mae ein disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwyhau eu hawliau i dderbyn addysg ac yn cael eu trin yn hafal.

Mae RhCT wedi meithrin diffiniad bwlio fel sydd wedi amlinellu yng nghanllaw Hawliau, Parch a Chydraddoldeb (LICC 2019)

Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sydd fel arfer yn parhau dros gyfnod, sy'n brifo eraill yn gorfforol neu'n emosiynol yn fwriadol.

Bydd RhCT yn parhau i herio bwlio yn holistig, trwy gefnogi ysgolion i ddelio â digwyddiadau o fwlio a thrwy ddatblygu strategaethau gwrth-fwlio gweithredol effeithiol. Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy fynd i'r afael â gwraidd yr achosion o ymddygiad annerbyniol a thrwy greu amgylchedd cynhwysol o barch cyffredin. Gallwn ond gyflawni hyn os yw lles wrth wraidd ein holl waith. Dyma sut bydd disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae plant a phobl ifanc angen dysgu am berthnasau parchus, gartref ac yn yr ysgol.

Mae bwlio yn fath gymhleth o ymddygiad ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob ymateb fod yn addas a dilyn canllawiau fframwaith safonedig. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod y plant yn ganolog i strategaeth gwrth-fwlio pob ysgol a bod y strategaeth yn canolbwyntio ar anghenion y disgybl, boed y disgybl hwnnw sy'n cael ei fwlio, y disgybl sy'n cyflawni'r bwlio neu'r disgybl sy'n dyst i'r achos o fwlio.

Mae gormod o ddisgyblion yn dioddef o ganlyniad i fwlio yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gall effeithiau bwlio fod yn hir neu fyr dymor, yn seicolegol neu gymdeithasol, ac yn aml arwain at dangyflawni neu broblemau presenoldeb. Mae gan rai grwpiau o ddisgyblion risg uwch na'r cyfartaledd o brofi bwlio ar sail rhagfarn.

O ganlyniad i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC), mae rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn gweithredu'n addas ac yn effeithiol er mwyn cael gwared ar anfanteision gall disgyblion eu profi ar sail eu nodweddion gwarchoddedig, neu leihau'r anfanteision hynny. Mae hyn yn cynnwys gwaith gwrth-fwlio ac ymateb i achosion o fwlio.

Gweithredoedd Allweddol y dylai ysgolion eu cymryd er mwyn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn y canllaw statudol.

Mae RhCT yn disgwyl i bob ysgol:

- Dewis arweinydd Gwrth-fwlio. (Gweler Rhan 6: Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol). Mae hefyd awgrym y dylai corff llywodraethu yr ysgol benodi llywodraethwr cyswllt er mwyn trafod gyda chyngor yr ysgol.
- Datblygu polisi gwrth-fwlio fel dogfen bolisi ar wahân. Dylai'r ddogfen gysylltu â pholisi ymddygiad yr ysgol y mae'r gyfraith yn dweud y dylai fod gan bob ysgol, ac fe ddylai gydfynd â pholisiau perthnasol eraill. (Gweler Rhan 7: Polisi, ac yn benodol paragraff 7.2 am gynnwys polisi ac atodiad A; Rhestr wirio ar gyfer datblygu polisi). Wrth ddatblygu'r polisi dylai'r ysgol drafod â disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid a rhanddeiliaid eraill er mwyn cytuno ar ddiffiniad bwlio yn unol â'r diffiniad yn y canllaw (gweler Rhan: Beth yw bwlio?). Dylai'r polisi gyfeirio'n uniongyrchol at fwlio ar sail rhagfarn a bwlio ar-lein. Dylai'r polisi gael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'i adolygu bob 3 blynedd.
- Rhoi manylion am strategaeth gwrth-fwlio sy'n gweddu nodweddion yr ysgol yn enwedig mewn perthynas â bwlio ar sail rhagfarn (Gweler Rhan 3).
- Cynnwys gwaith gwrth-fwlio yng nghyd-destun ehangach dull cydraddoldebau a chyfiawnder cymdeithasol, yn ogystal â pherthnasau parchus ac iach ac atal trais. Dylai'r ysgol wneud hyn yn rhan o ddull sy'n annog yr holl ysgol i ddathlu gwahaniaethau (gweler Rhan 6: Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol a Rhan 8: Atal).
- Dylai pennaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion sicrhau bod athrawon a staff gweinyddol yn derbyn hyfforddiant cyson; yn effro i strategaeth a pholisi gwrth-fwlio'r ysgol ac yn deall beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i hyrwyddo perthnasau parchus, cadarnhaol a'r gweithdrefnau i'w dilyn.
- Cydnabod bod y rhai hynny sy'n gwneud y bwlio angen help, cefnogaeth a chyfleoedd i newid eu hymddygiad a sicrhau eu bod yn eu derbyn. Dylai ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n dyst i fwlio yn deall bod gyda nhw'r hawl i herio'r bwlio, naill ai trwy ymyrryd – os yw'n ddiogel gwneud hynny – neu trwy roi gwybod i aelod o staff neu oedolyn y gellir ymddiried ynddo (gweler Rhan 9: Ymateb mewn achos o fwlio).
- Sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle ar gyfer adrodd a chofnodi pob achos o fwlio a bod holl gymuned yr ysgol yn effro iddyn nhw. (gweler Rhan 11: Gwerthuso ac atebolrwydd) Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod yr wybodaeth mae ysgolion yn ei chofnodi yn cyfeirio'n benodol at

ddiffiniad bwlio'r ysgol a darpariaethau ehangach sydd wedi'u hamlinellu yn strategaeth a pholisi gwrth-fwlio yr ysgol. Dylai cofnodion amlinellu'r mathau penodol o fwlio, gan gynnwys bwlio sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig. Enghraifft o ffurflen cofnodi achos o fwlio yw Atodiad B.

- Cynigwch sawl ffordd o adrodd achosion o fwlio i ddisgyblion.
- Anogwch ddioddefwyr bwlio i gadw tystiolaeth o'r bwlio. Dylai'r dioddefwr nodi dyddiadau ac amseroedd y digwyddiadau, a chipluniau o ddigwyddiadau ar-lein. Gall tystion hefyd ddarparu datganiadau neu dystiolaeth bellach.
- Wrth benderfynu ar yr ymateb mwyaf addas neu'r gosb, ystyriwch yr effaith y gallai'r ymateb ei gael ar bawb sy'n gysylltiedig yn yr hir-dymor a'r byr-dymor. Dylai ysgolion ystyried a yw'r ymateb yn debygol o gyfeirio at wraidd yr achos a sut mae modd i ymyriadau atal y broblem rhag parhau neu ddigwydd eto. Os dydy ymyrraeth ddim yn gweithio yn ôl y gobaith, rhowch gynnig ar dulliau gwahanol. Os bydd y deilliant yn aflwyddiannus wedi i'r ymyrraeth ddod i ben, ddylai ysgolion ddim ystyried problemau wedi'u datrys. Pan ddaw at achosion cymhleth, mae adolygiadau cyson a chyfathrebu parhaol rhwng pawb sy'n gysylltiedig yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr ymyrraeth yn gweithio.
- Mae RhCT yn disgwyl i ysgolion ddarparu adroddiad o achosion o fwlio i'r Awdurdod Lleol bob tymor. O Ionawr 2022 bydd ysgolion yn gallu cyflwyno'r adroddiad yma yn SIMS. Bydd y data yn cael ei gyflwyno'n ôl weithredol ar ddiwedd pob tymor. Mae manylion y data mae angen i ysgolion gyflwyno yn Atodiad C. Darperir canllawiau i gefnogi ysgolion i gyflwyno data trwy SIMS.
- Hunanasesu trwy ofyn am adborth gan staff a disgyblion er mwyn pennu nifer yr achosion o fwlio. Mae arolygon sampl yn yr arweinyfr.
- Monitro cynydd yn gyson. Bydd hyn yn golygu bod modd i ysgolion newid eu polisiau er mwyn ymateb i dueddiadau penodol a phroblemau sy'n codi mewn ffordd gyflym ac effeithiol. Mae ysgolion yn debygol o weld hyn yn fuddiol yng nghyd-destun DCSC (PSED). Gall ysgolion hefyd ddefnyddio'r wybodaeth yma wrth adolygu eu hamcanion cydraddoldeb a monitro effaith eu polisiau gwrth-fwlio. Dylai dadansoddiad gwybodaeth mewn perthynas ag achosion o fwlio a strategaeth gwrth-fwlio yr ysgol ffurfio rhan o'r cylchdroeon MGA.
- Dylai cyrff llywodraeth fonitro
 - trosolwg o gofnodion achosion o fwlio yn eu lleoliad er mwyn gweld pa mor hir, ar gyfartaledd, mae'n cymryd i ddatrys problemau
 - y cyfraddau ailddigwydd

- os yw disgyblion sydd wedi adrodd am achosion o fwlio o'r farn eu bod wedi cael deilliant boddhaol
- os yw tueddiadau'n dod i'r fei neu grwpiau'n darged ar gyfer rhagfarn
- os oes achosion ar-lein sy'n awgrymu bod angen gwneud gwaith gyda'r disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid a staff er mwyn mynd i'r afael â mathau newydd o fwlio
- cyfraddau absenoldebau
- bod y data sy'n cael ei gasglu'n aml yn glŷn ag achosion wedi'u hadrodd yn dangos cynydd tuag at yr amcanion cydraddoldeb.

Beth mae modd i ysgolion ei ddisgwyl gan RCT.

Trwy waith y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, yn enwedig y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad, bydd RhCT yn cefnogi ysgolion wrth gyrraedd y disgwyliadau hynny trwy:

- Sicrhau bod gan bob ysgol bolisi gwrth-fwlio ar ei gwefan.
- Monitro adroddiadau tymhorol ysgolion, rhoi cymorth a herio ysgolion i fynd i'r afael â phroblemau a gwella eu hymateb trwy ddarparu hyfforddiant a chynghor.
- Gwerthuso'r data gan ysgolion, nodi patrymau a rhoi gwybodaeth i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod wedi paratoi i ymateb i unrhyw dueddiadau.
- Canolbwyntio'n benodol ar gofnodi achosion sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn gywir er mwyn gallu monitro patrymau ac atal gwahaniaethu er mwyn sicrhau cydymffurfio â DCSC.
- Monitro data cydraddoldeb a rhoi cynghor i ysgolion ar dueddiadau lleol.
- Datblygu fframwaith hunan-werthuso gwrth-fwlio. Cefnogi ysgolion wrth hunan-werthuso nifer yr achosion o fwlio a pha mor effeithiol yw'r strategaethau gwrth-fwlio a sut i drin y canlyniadau.
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth ar wefan RhCT wedi'i diweddarau pan ddaw at gefnogaeth gwrth-fwlio i ysgolion, disgyblion a staff. ([website link](#))
- Mae RhCT yn darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol i blant a phobl ifanc rhwng 7 a 25 oed trwy'r gwasanaeth 'Eye to Eye' i bobl ifainc.
- Cefnogi ysgolion i rannu dulliau gwrth-fwlio effeithiol trwy waith grŵp clwstwr a fforymau lles.
- Cefnogi ysgolion trwy ddarparu cynghor, cefnogaeth, ac adnoddau, pan fo'n bosib, i ddatblygu eu harfer dathlu gwahaniaethau ar hyd ardal yr awdurdod lleol a'r gymuned ehangach.
- Cymell ysgolion i beidio ag annog disgyblion i drosglwyddo i ysgol arall er mwyn mynd i'r afael â bwlio, a dylai hyn ddod yn bolisi amlwg er mwyn herio'r ysgol benodol honno.